

Etholiadau i Bawb – Crynodeb

Dyma grynodeb o adroddiad y Comisiwn Etholiadol sef *Etholiadau i Bawb*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r adroddiad yn sôn am gofrestru i bleidleisio a phleidleisio o safbwynt rhywun ag anabledd. Mae'n dweud wrthy ch am y problemau a gaiff pleidleiswyr ag anabledd pan fyddant yn pleidleisio a sut yr hoffent weld pethau'n newid er gwell. Mae hefyd yn dweud wrthy ch beth y dylid ei wneud er mwyn helpu i sicrhau bod etholiadau yn hygyrch i bawb.

- Ni ddylai fod **unrhyw rwystrau** i bleidleisio ar gyfer pobl ag anabledd.
- Dylai fod gan bawb hawl i bleidleisio ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol. Dylai pleidleisio fod yn brofiad da i bawb.
- Nid yw pobl ag anableddau bob amser yn gwybod am eu hawliau pleidleisio. Mae angen iddynt wybod y gallant bleidleisio ac y gallant gael cymorth i bleidleisio.
- Mae angen i weithwyr gofal a chymorth wybod sut y gallant helpu'r bobl maent yn gofalu amdanynt pan fyddant yn pleidleisio.
- Mae angen i bobl sy'n cynnal etholiadau ddeall anghenion pobl ag anableddau fel y gallant eu helpu a'i gwneud yn haws iddynt gofrestru i bleidleisio, ac i bleidleisio.

- Dylai ymgeiswyr a phleidiau sicrhau bod gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu darllen a'u bod ar gael mewn da bryd cyn yr etholiad er mwyn i bobl gael amser i'w darllen.
- Pan fydd pleidiau gwleidyddol yn cyhoeddi eu manifestos, dylent sicrhau bod fformatau hygyrch ar gael ar yr un pryd. Dylai pobl ag anabledd gael yr un amser â phawb arall i ddeall beth y mae'r pleidiau yn sefyll drosto. Mae'n bwysig bod pawb yn cael digon o amser i feddwl am eu penderfyniad cyn iddynt bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.
- Dylai'r Llywodraeth ystyried ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anableddau bleidleisio er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt.

Mae'r Comisiwn Etholiadol am i bawb weithio gyda phobl a sefydliadau er mwyn helpu i sicrhau bod **profiad pawb** o bleidleisio mor hawdd â phosibl.

Dyma fersiwn fer o'r adroddiad. Os hoffech ddod o hyd i'r adroddiad llawn - edrychwch ar wefan y Comisiwn Etholiadol.